# Cyngor Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru

## Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant

Chwefror 2023

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2023 WG47561 ISBN Digidol 978-1-83504-039-3

## Cyflwyniad

Rhwng 6 a 13 Chwefror 2023, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) ac Estyn arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaeth i gamdriniaeth ac esgeulustod yn Sir Ddinbych.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau am effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol yn Sir Ddinbych.

**Cwmpas yr arolygiad**

Fel rhan o'r Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA), adolygwyd y canlynol:

- yr ymateb i gyhuddiadau o gamfanteisio ac esgeulustod ar yr adeg y cânt eu nodi
- ansawdd ac effaith gwaith asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i hysbysiadau ac atgyfeiriadau
- y trefniadau ar gyfer amddiffyn plant 11 oed ac iau sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- y trefniadau ar gyfer arwain a rheoli'r gwaith hwn
- effeithiolrwydd trefniadau partneriaid diogelu amlasiantaethol mewn perthynas â'r gwaith hwn.

Rydym wedi ceisio defnyddio iaith syml i ddisgrifio canfyddiadau arolygiad ar y cyd. Crybwyllir nifer o dermau a ddisgrifir isod:

| Term neu Ymadrodd | Diffiniad |
|---|---|
| BIPBC | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| CAMHS | Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| Unigolyn â Phrofiad o fod mewn Gofal | Plant neu berson ifanc sydd naill ai'n derbyn gofal neu a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol (er enghraifft, person ifanc hŷn sydd wedi 'gadael gofal' yn 18 oed, plentyn sydd wedi dychwelyd at ei deulu genedigol, neu blentyn a gafodd ei fabwysiadu) |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | Plentyn neu berson ifanc sydd o dan ofal yr awdurdod lleol ar hyn o bryd |
| Swyddog Arweiniol Diogelu Dynodedig | Swyddog Arweiniol Diogelu Dynodedig yw'r unigolyn a benodir i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant mewn ysgolion. |
| Dyletswydd i Roi Gwybod | Mae'r *ddyletswydd statudol i roi gwybod* i'r awdurdod lleol yn golygu atgyfeiriad at |

| | |
|---|---|
| | wasanaethau cymdeithasol y mae ganddynt, ochr yn ochr â'r heddlu, bwerau statudol i ymchwilio i achosion posibl o gam-drin neu esgeuluso. |
| Ap ForMi | Adnodd cynllunio a chofnodi canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw ForMi, ar gyfer cyflogeion neu unigolion sy'n cael cymorth wedi'i bersonoli. |
| Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol | Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol sy'n rhoi help a chymorth i ddioddefwyr trais domestig |
| Cynllunio Amlasiantaeth | Nod cyfarfodydd cynllunio amlasiantaeth yw datblygu trefniadau partneriaeth i wella cyflawniad addysgol y disgyblion y mae angen help ychwanegol arnynt |
| MARAC | Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth yw MARACau. Cyfarfodydd rheolaidd rhwng gweithwyr proffesiynol ydynt, a gynhelir er mwyn trafod sut i helpu unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed o ganlyniad i drais neu gam-drin domestig. |
| Ap Mind of My Own (Momo) | Ap cynhwysol sy'n grymuso pobl ifanc i gymryd rhan yn eu bywydau ac i fynegi eu barn i oedolion y maent yn ymddiried ynddo. |
| Cynorthwyydd Personol | Cyflogir cynorthwywyr personol yn uniongyrchol gan unigolion i'w helpu gyda gofal a chymorth |
| PRUDIC | Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod, sy'n gosod safon ofynnol ar gyfer ymateb amlasiantaeth i farwolaethau annisgwyl yn ystod babandod a phlentyndod |
| Adran 47 | O dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i ymchwilio os ymddengys fod plentyn yn ei ardal yn dioddef niwed sylweddol neu'n wynebu risg o hynny. |
| Tîm o Amgylch y Teulu | Gall y Tîm o Amgylch y Teulu gynnig cyngor a help i deuluoedd y mae angen cymorth ychwanegol |
| Tîm o Amgylch yr Ysgol | Nod model y Tîm o Amgylch yr Ysgol yw helpu ysgolion i nodi a chefnogi teuluoedd yn gynt pan fydd yr angen yn codi drwy gydweithio â phartneriaid allweddol |
| THRIVE | Adnodd asesu risg yr heddlu a ddefnyddir i bennu lefel blaenoriaeth i ddigwyddiad |

| | |
|---|---|
| Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. |

## 1 Crynodeb

Yn yr un modd â llawer o ardaloedd ledled Cymru, mae'r heriau o ran recriwtio a chadw staff ym mhob un o'r asiantaethau allweddol yn Sir Ddinbych yn effeithio ar drefniadau diogelu plant. Mae lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion plant yn ychwanegu at hyn. Mae prinder gweithwyr cymdeithasol a marchnad gystadleuol wedi arwain at ddibyniaeth ormodol ar weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ac asiantaeth. Er bod asiantaethau yn mynd i'r afael â recriwtio, mae sefyllfa'r gweithlu yn dal i fod yn fregus. Yn yr awdurdod lleol, mae'r sefyllfa wedi'i chategoreiddio'n risg uchel gorfforaethol ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r trefniadau diogelu hefyd wedi'u categoreiddio'n risg uchel gorfforaethol.

Er gwaethaf y cyd-destun hwn, yn gyffredinol mae systemau a chydberthnasau ar waith i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol os yw plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin a'i esgeuluso. Mae partneriaid yn gweithio'n unol ag ethos a rennir o ddiogelu plant ar lefelau gwahanol o fod yn agored i niwed. Mae rheolwyr ac arweinwyr hefyd yn darparu diwylliant o gydweithio cadarnhaol. Mae arweinwyr sefydliadau yn dangos gweledigaeth a rennir glir ac ymagwedd gadarnhaol at drefniadau diogelu rhanbarthol. Mae'r ymrwymiad strategol hwn wedi arwain at gomisiynu amrywiaeth ddigonol o wasanaethau lleol effeithiol i gefnogi plant a theuluoedd (er enghraifft gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol), gan gynnwys help therapiwtig. Mae ysgolion ledled Sir Ddinbych yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth eang o wasanaethau i gefnogi anghenion plant.

At ei gilydd, ceir presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaeth mewn cyfarfodydd a gaiff eu cynnull o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynhadledd achos amddiffyn plant cychwynnol a chynhadledd adolygu achos amddiffyn plant, yn ogystal â grwpiau craidd. Mae sicrhau y caiff adroddiadau allweddol, fel adroddiadau meddygol amddiffyn plant, eu rhannu mewn modd amserol yn hwyluso cyfathrebu effeithiol. Yn bwysicaf oll, mae cyfraniad amlasiantaeth yn amlwg wrth fynd i'r afael â diogelwch plant drwy'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar ymarfer amddiffyn plant sy'n anghyson iawn ac y mae angen rhoi sylw iddynt. Er bod gweithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau priodol, gan gynnwys at wasanaethau plant, wedi hynny nid yw swyddogaethau statudol mewn perthynas â hybu diogelwch a llesiant bob amser yn cael eu cyflawni. Mae bylchau yn ymwneud â phob asiantaeth berthnasol yn ystod y cyfnod cychwynnol i drafod strategaeth amddiffyn plant. Yn gyffredinol, ni chaiff partneriaid allweddol eu gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaethau strategaeth a gynhelir fel arfer rhwng gwasanaethau plant a'r heddlu yn unig. Mae hyn yn golygu

efallai nad yw gwybodaeth berthnasol a ddelir gan asiantaethau sy'n adnabod y plant ar gael i lywio'r penderfyniadau a wneir.

Wrth ymateb i wybodaeth am faterion risg a diogelwch, gall yr ymateb amlasiantaeth fod yn anghyson ac yn anghymesur. Ni all yr ymateb atal risg a niwed rhag gwaethygu bob amser, ac ni chaiff ei gynnal mewn modd amserol bob amser. Nid yw camau gweithredu bob amser yn cael eu cymryd o fewn terfynau amser priodol a gall fod oedi cyn i'r help a'r trefniadau amddiffyn sydd eu hangen i ddiwallu anghenion a lleihau risg gael eu darparu.

## 2 <u>Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth</u>

## 2.1 <u>Llesiant</u>

**Cryfderau**

**Trefniadau Partneriaeth**

Yr enghreifftiau gorau o ymarfer amddiffyn plant yn Sir Ddinbych yw pan fo dealltwriaeth a rennir o'r pryderon ynghylch niwed sylweddol a phan fo asiantaethau yn ystyried yr effaith y mae hyn yn ei chael ar y plentyn. Roedd hyn yn amlwg wrth arsylwi ar gynhadledd amddiffyn plant, lle gwelwyd dull clir sy'n seiliedig ar gryfderau a oedd yn sicrhau bod cyswllt clir rhwng risg a diogelwch yn y cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

Mae cynadleddau amddiffyn plant yn fforymau effeithiol i rannu gwybodaeth, cynllunio, gwneud penderfyniadau mewn modd amserol. Mynychir y cynadleddau hyn gan grwpiau amlasiantaeth.
Mae'r cynadleddau wedi'u strwythuro'n dda a chânt eu hwyluso drwy sgyrsiau cydweithredol â rhieni/gofalwyr, gan gynnal ffocws ar risg a diogelwch.

At ei gilydd, mae ansawdd y wybodaeth atgyfeirio gan bartneriaid i wasanaethau plant yn rhoi eglurder a manylion perthnasol. Mae hyn yn bwysig, gan ei fod yn galluogi penderfyniadau prydlon a chywir i gael eu gwneud ar gam cynnar.

Mae'r protocol cyn geni a ddiwygiwyd yn ddiweddar a'r hyfforddiant cysylltiedig, ar y cyd â chyfarfodydd cyswllt cyn geni, wedi sicrhau gwaith cynllunio amserol mewn perthynas â babanod heb eu geni lle ceir pryderon diogelu.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Caiff atgyfeiriadau at wasanaethau plant gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eu gwneud mewn modd priodol, gan gyfleu pryderon y gweithiwr proffesiynol. Rhoddir pwyslais ar lais y plentyn a'r canlyniadau y bwriedir eu cyflawni. Rhoddir pwyslais ar lais y plentyn a'r canlyniadau y mae angen i'r atgyfeiriad eu cyflawni. Sicrheir cysondeb wrth lunio adroddiadau, a gofynnir i rieni pa gymorth y maent am ei gael gan wasanaethau plant. Rhoddir ystyriaeth briodol i gyfeirio at ymyriadau cymorth cynnar. Mae'r wybodaeth o ansawdd da a gyflwynir mewn atgyfeiriadau yn golygu y gellir ymateb yn brydlon, y caiff llwybrau priodol eu dilyn ac y caiff camau cymesur eu cymryd.

Ceir enghreifftiau o ymgysylltu da rhwng meddygon teulu a phrosesau diogelu statudol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant a mynd ar drywydd apwyntiadau a gollwyd. Yn ffeil un meddyg teulu, tynnwyd sylw at bryderon ynghylch diogelu ac roedd dull 'ystyried y teulu' yn amlwg (roedd cofnod wedi'i wneud yng nghofnod y plentyn pan oedd y tad wedi'i atgyfeirio at y tîm argyfwng iechyd meddwl).

Mae'r Tîm Diogelu wedi datblygu a chyflwyno enghreifftiau o ymarfer rhagorol ac arloesol ar draws adrannau yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. Mae hyn wedi cynnwys Llysgenhadon Diogelu ar draws y bwrdd iechyd, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol mewn ysbytai (mae'r rôl hon yn cynnwys ymweliadau ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol a mynychu cyfarfodydd diogelu allweddol) a chyfarfodydd diogelu mewn Adrannau Achosion Brys er mwyn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o nifer y plant dan 2 oed a oedd wedi ymweld â'r adran yn ddiweddar. Mae hyn yn un o argymhellion Adolygiad Ymarfer Plant. Ymddengys fod mesurau diogelu cadarn ar waith mewn meysydd lle y caiff plant eu gweld a'u harchwilio. Pan fydd plant yn ymweld ag Adrannau Achosion Brys, caiff gweithwyr iechyd proffesiynol allweddol sy'n ymwneud â'r plentyn fel arfer eu hysbysu.

Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn nodi anafiadau heb esboniad ac yn ymchwilio iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau o'r holl adroddiadau ar ddigwyddiadau a luniwyd gan y tîm diogelu, uwchgyfeirio trafodaethau â phartneriaid amlasiantaeth, prosesau adolygu gan gymheiriaid a chynlluniau i gyflwyno system electronig mewn Unedau Mân Anafiadau.

**Addysg**

Ceir gwaith cynllunio a chymorth addysg da ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal. Caiff cynlluniau addysg personol eu cwblhau a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae ysgolion yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau plant i gefnogi llesiant, cynnydd a chyfranogiad plant sy'n derbyn gofal.

Ceir amrywiaeth o ymyriadau a dulliau gweithredu effeithiol a gyflwynwyd ar draws yr awdurdod lleol i gefnogi anghenion disgyblion , gan gynnwys y rhai sy'n wynebu risg o niwed a'r rhai sy'n destun cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth. Mae'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn cynnig amrywiaeth eang o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi ymddygiad gwybyddol. Mae'r dull ystyriol o drawma wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ym mhob ysgol. Mae effaith hyn a hyfforddiant ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn dangos gwell dealltwriaeth ymhlith staff o effaith trawma ar blentyn. Yn ogystal â hynny, mae'n galluogi ymyriadau perthnasol i gael eu dewis mewn modd mwy effeithiol i gefnogi anghenion pob disgyblion.

Mae ysgolion a darparwyr addysg eraill hefyd yn cynnig ymyriadau buddiol fel Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol, rhaglenni gwydnwch ac amserlenni pwrpasol sy'n helpu dysgwyr agored i niwed i fanteisio ar addysg. Fel arfer, bydd ysgolion uwchradd yn cynnig amrywiaeth o gymorth ac ymyriadau yn ystod y diwrnod ysgol i ddisgyblion sy'n wynebu risg o niwed, gan weithio mewn ymgynghoriad ag asiantaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan yr ysgol, gweithwyr ieuenctid yr awdurdod lleol sy'n gweithio ar y safle, a gwasanaeth cymorth ymddygiadol.

Mae'r gwaith o gynllunio'r cyfnod pontio ar gyfer plant cyn oed meithrin a phlant meithrin yn gryfder penodol. Rhennir gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol rhwng asiantaethau a cheir ffocws cryf ar y plentyn. Mae samplau o gofnodion gan ysgolion uwchradd yn dangos gwaith cynllunio addas mewn perthynas â'r cyfnod bontio ar gyfer disgyblion agored i niwed sy'n symud i'r ysgol uwchradd.

Mae'r awdurdod lleol yn monitro presenoldeb yn agos, gan gynnwys plant sy'n destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth a phlant sy'n derbyn gofal. Mae cyfraddau presenoldeb yn is na'r hyn a welwyd cyn y pandemig, gan gynnwys y rheini ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae hyn yn gyson â'r cyfraddau cenedlaethol ac nid oes unrhyw feysydd o bryder.

Cadarnhaodd trafodaethau â disgyblion blwyddyn 7 yn ystod yr wythnos arolygu eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, eu bod yn gwybod ble i droi am gymorth, eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, a bod eu hysgol yn cynnig profiadau dysgu cadarnhaol iddynt mewn perthynas â materion llesiant.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Mae gan yr heddlu systemau da ar waith i nodi troseddau mewn atgyfeiriadau ac i gofnodi'r rhain ar ei systemau fel y gellir eu dyrannu ar gyfer ymchwiliad. Lle bydd gan swyddogion yr heddlu bryderon am les plant, byddant yn eu cofnodi ar systemau'r heddlu. Bydd staff yr Uned Atgyfeirio Ganolog yn gwirio'r adroddiadau hyn ac yn ychwanegu gwybodaeth berthnasol arall o systemau'r heddlu atynt, cyn eu hanfon at y gwasanaethau plant perthnasol.

Mae swyddogion ateb galwadau yn Ystafell Reoli'r Heddlu yn nodi plant agored i niwed yn gyflym ac yn asesu'r risg drwy asesiadau risg THRIVE. Maent yn pennu ymatebion ar unwaith ac â blaenoriaeth i'r digwyddiadau hyn, a chaiff eu penderfyniadau eu gwirio gan oruchwylwyr. Os bydd oedi cyn ymateb, bydd goruchwylwyr yn adolygu'r risg ac yn sicrhau na fydd digwyddiadau heb eu neilltuo am gyfnod rhy hir.

Mae systemau'r heddlu yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau blaenorol sy'n gysylltiedig â'r galwyr a'r cyfeiriadau, fel bod ymatebwyr yn cael gwybodaeth ategol i asesu'r risg â delio â phryderon.

Caiff digwyddiadau cam-drin domestig bob amser eu neilltuo i swyddogion ar gyfer ymateb ar unwaith. Mae swyddogion ateb galwadau yn atgoffa swyddogion i gofnodi natur agored i niwed plant ar gofnodion yr heddlu. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgogi swyddogion i ddefnyddio camerâu fideo a wisgir ar y corff nac i recordio llais y plentyn.

Mae gan yr heddlu wybodaeth arbenigol i gefnogi ei ymatebion i blant sy'n wynebu risg uchel, er enghraifft pan fyddant ar goll neu pan fydd pryderon bod rhywun yn camfanteisio arnynt. Mae strwythur arwain clir bob amser ar waith i reoli digwyddiadau risg uchel.

Mae arweinwyr yr heddlu yn adolygu digwyddiadau difrifol sy'n effeithio ar blant mewn cyfarfodydd pennu tasgau dyddiol. Mae hyn yn golygu y gallant fod yn sicr bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i helpu'r plant hyn.

**Gwasanaethau Plant**

Ceir cyfleoedd da i rannu gwybodaeth am risg yn y gwasanaeth, er enghraifft drwy'r cyfarfodydd wythnosol a arweinir gan reolwr gwasanaeth neu bennaeth gwasanaethau plant. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i gynnal sgyrsiau penodol am blant a theuluoedd penodol, yn ogystal â'r cydbwysedd rhwng llwythi gwaith a materion staffio.

Pan gaiff pryderon ynghylch diogelu eu nodi drwy atgyfeiriadau at wasanaeth y Porth, caiff y rhain fel arfer eu nodi a'u cyfeirio at y Tîm Derbyn i'w hystyried ymhellach mewn modd amserol.

Mae plant a'u teuluoedd yn cael budd o ddulliau seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu i leihau risgiau a diwallu eu hanghenion. Mae sgyrsiau cydweithredol yn amlwg ym mhrosesau cynadleddau amddiffyn plant, gyda swyddogion adolygu diogelu annibynnol yn rhoi blaenoriaeth i gysylltu â rhieni cyn y gynhadledd er mwyn sicrhau gwell cyfathrebu a dealltwriaeth. Maent hefyd yn sicrhau yr eir ar drywydd cynlluniau, y caiff unrhyw oedi ei herio, ac y caiff cynlluniau eu huwchgyfeirio'n effeithiol pan fo angen. Maent yn sicrhau bod digon o graffu a herio annibynnol i ddylanwadu ar gynnydd cynlluniau gofal a chymorth plant.

Gwneir defnydd creadigol ac arloesol o wasanaethau sy'n gweithio gyda rhai teuluoedd, yn benodol y tîm therapiwtig. Mae ap ForMi yn cael ei dreialu fel system gofnodi weithredol wrth weithio gyda theuluoedd, gyda'r nod o roi cymaint o berchnogaeth i'r plentyn neu'r rhiant â phosibl, gan helpu i'w gymell a'i gynnwys.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Trefniadau Partneriaeth**

Mae cyfleoedd wedi'u colli i sicrhau cyfranogiad amlasiantaeth mewn trafodaethau strategaeth cychwynnol lle byddai gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ac addysg, a gweithwyr proffesiynol eraill wedi chwarae rôl berthnasol ac wedi gwneud cyfraniad dilys. Prin yw'r cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth i adolygu canlyniad ymchwiliad Adran 47. Dylid gwahodd asiantaethau statudol i gymryd rhan, a dylid cynnull y cyfarfodydd hyn. Pe bai pob ymarferydd perthnasol sy'n gweithio gyda phlentyn yn mynychu cyfarfodydd strategaeth o'r fath, byddai hyn yn sicrhau dealltwriaeth well o faterion risg a diogelwch. Mae hwn yn faes allweddol i'w wella er mwyn cyfathrebu'n effeithiol, rhannu gwybodaeth, a gwella dealltwriaeth o'r risgiau a wynebir gan blant a'r rhwystrau i'w diogelu.

Ni chaiff adborth gan wasanaethau plant yn dilyn atgyfeiriad na'r ddyletswydd i roi gwybod eu rhannu'n gyson â'r atgyfeiriwr mewn modd amserol. Mae'r diffyg rhannu gwybodaeth hwn yn golygu efallai na chaiff atgyfeirwyr wybod am ffactorau sy'n gysylltiedig ag angen a risg ac na allant ymateb na gweithio mor effeithiol â theuluoedd. Gall yr adborth a roddir i weithwyr proffesiynol hefyd fod yn anghyson â meysydd eraill. Er enghraifft, ni chaiff cofnodion cyfarfodydd allweddol fel grwpiau craidd bob amser eu rhannu ag asiantaethau eraill mewn modd amserol. Mae hyn yn faes i'w ddatblygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r disgwyliadau yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Er bod cydberthnasau cadarnhaol yn bodoli rhwng gweithwyr proffesiynol, byddai cyfleoedd am her broffesiynol mewn perthynas ag ymarfer yn sicrhau canlyniadau gwell i blant. Er enghraifft, y dull safonol o ymdrin ag ymholiadau amddiffyn plant yw cynnal un ymweliad asiantaeth â theuluoedd (lle bydd gweithwyr cymdeithasol yn aml yn ymweld â theuluoedd ar eu pen eu hunain). Nid yw hyn bob amser yn briodol ac nid yw wedi'i herio gan asiantaethau. Mae her iach ac adeiladol yn hanfodol i atal hunanfodlonrwydd a hyrwyddo gwelliant parhaus.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mewn gwasanaethau bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, er bod tystiolaeth o ymweliad cyn geni ar y cyd pan fydd pryderon ynghylch diogelu wedi'u nodi, nid oes unrhyw ddata ar gael i bennu cydymffurfiaeth â'r weithdrefn ar gyfer trosglwyddo achos rhwng bydwraig ac ymwelydd iechyd ac ymwelydd iechyd a nyrs ysgol.

Ni chaiff asesiadau bob amser eu cwblhau'n llawn, er enghraifft nid oedd un asesiad cyfannol gan ymwelydd iechyd yn cynnwys gwybodaeth allweddol ynghylch diogelu fel cam-drin domestig. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yn rhaid i ymchwiliad arferol ar gyfer cam-drin domestig gael ei gwblhau mewn amgylchedd diogel ac y gellir ei gwblhau yn ddiweddarach pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Lle na ddaethpwyd â phlentyn sy'n derbyn gofal i apwyntiad mewn ysbyty, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y polisi yn ymwneud â phlant na ddaethpwyd â nhw i apwyntiad wedi'i ddilyn. Mae hyn yn golygu y gellid colli cyfleoedd i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch a llesiant plant, felly mae angen cymryd camau i wella yn hyn o beth.

**Addysg**

Er bod yr awdurdod lleol yn monitro presenoldeb dysgwyr agored i niwed yn dda ar y cyfan, mewn nifer bach iawn o achosion, gall swyddogion fod yn araf i ymateb i achosion o ddiffyg presenoldeb. Tynnwyd sylw at hyn yn un o'r ffeiliau a welwyd, lle roedd gwaith amlasiantaeth da ond cynnydd cyfyngedig wrth annog y plentyn i ddychwelyd i addysg.

Mewn nifer bach iawn o ysgolion a meithrinfeydd nas cynhelir (lle mae'r awdurdod lleol yn cefnogi lleoliadau a ariennir) bu diffygion mewn agweddau ar brosesau diogelu. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol bob amser wedi bod yn glir ac yn agored am y diffygion hyn gydag arolygwyr cyswllt cyn arolygiadau. Mae swyddogion wedi gweithio'n ddiwyd ac yn gynhyrchiol gydag ysgolion a'r arolygiaeth i leihau risgiau i blant ac maent wedi gwneud gwelliannau sylweddol.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Caiff pob atgyfeiriad amddiffyn plant ei adolygu gan yr Uned Atgyfeirio Ganolog a chaiff pob atgyfeiriad ei rannu â gwasanaethau plant. Mae swyddogion rheng flaen yn asesu eu hatgyfeiriadau fel rhai â blaenoriaeth Uchel, Canolig a Safonol. Fodd bynnag, mae llawer o'r swyddogion hyn yn amhrofiadol ac nid yw eu hasesiadau bob amser yn gywir, nac ychwaith yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Gall atgyfeiriadau a gaiff eu hasesu'n anghywir achosi oedi yn y system. Mae ymchwilwyr yr Uned

Atgyfeirio Ganolog yn gweithio 7 diwrnod yr wythnos ond mae ôl-groniadau yn golygu bod oedi o hyd at 72 awr cyn y caiff gwybodaeth ei rhannu.

Mae'r heddlu yn defnyddio arwyddion a marcwyr rhybudd ar eu systemau i dynnu sylw swyddogion at rai risgiau i blant. Mae'r arwyddion hyn yn ysgogi swyddogion ateb galwadau i drefnu help i blant, ond ceir anghysondeb gan nad yw'r arwyddion ar gyfer plant sy'n destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth bob amser yn cael eu defnyddio ar gofnodion. Heb yr arwyddion hyn, nid oes gan swyddogion rheng flaen y wybodaeth lawn i sicrhau ymateb effeithiol, a gall plant agored i niwed barhau i wynebu risg.

Mae gan yr heddlu ddata ar ei systemau am droseddau a digwyddiadau lle mae plant yn wynebu risg, er enghraifft adroddiadau am blant sydd ar goll. Defnyddir y data hyn i ddyrannu adnoddau a deall sut i reoli galw. Fodd bynnag, nid oes gan yr heddlu lawer o wybodaeth ansoddol i'w helpu i leihau'r risg i blant. Er enghraifft, nid yw rheolwyr Amddiffyn Pobl Agored i Niwed yn cael adroddiadau am ddigwyddiadau mynych lle ceir pryderon am blant i'w galluogi i gadarnhau canlyniadau ymyriadau blaenorol ac a oes angen gweithgarwch uwchgyfeirio.

Mae gan yr heddlu wybodaeth am droseddau difrifol a chyfundrefnol, gan gynnwys plant y camfanteisir yn droseddol arnynt sy'n ymwneud â llinellau cyffuriau. Fodd bynnag, nid oes ganddo broffil problemau a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gyfer plant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt. Mae'r proffiliau hyn yn hanfodol i alluogi partneriaethau diogelu i gynllunio a chydlynu gweithgarwch i atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.

Mae dadansoddwyr yn cwblhau asesiadau strategol a phroffiliau sy'n cynnwys data ac asesiadau i helpu'r heddlu i ddeall maint risg, bygythiad a niwed mewn meysydd â blaenoriaeth, er enghraifft camfanteisio troseddol, ond nid yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio strategaeth amddiffyn plant gyffredinol. Mae'n golygu nad yw'r heddlu yn rhoi blaenoriaeth i gasglu ac asesu gwybodaeth am natur agored i niwed plant neu'r rheini sy'n peri risg iddynt. Nid yw'r bylchau hyn mewn gwybodaeth yn hysbys. Felly, nid oes dull seiliedig ar wybodaeth o atal plant rhag cael eu cam-drin ar waith.

Wrth ymateb i deuluoedd sy'n wynebu risg o gam-drin domestig, ni fydd swyddogion bob amser yn ystyried rhoi hysbysiadau atal trais domestig i droseddwyr. Mae'r gorchmynion hyn yn gam cadarnhaol i ddiogelu teuluoedd agored i niwed.

Mae swyddogion yr heddlu yn colli cyfleoedd i gasglu tystiolaeth i gefnogi dioddefwyr mewn ymchwiliadau a arweinir gan dystiolaeth. Nid yw camerâu fideo a wisgir ar y corff bob amser yn cael eu defnyddio i recordio amgylcheddau byw plant, eu hymarweddiad a'u cyfrifon.

### Gwasanaethau Plant

Nid yw gwasanaethau plant bob amser yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn unol â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Ceir tystiolaeth anghyson ac annigonol o gynnydd mewn cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth. Weithiau, nid yw plant yn cael eu gweld o fewn y terfynau amser statudol gofynnol. Gall fod diffygion mewn

dadansoddiadau, penderfyniadau a rhesymeg mewn llawer o ffeiliau. Mewn rhai meysydd gwasanaeth, nid ymatebir i atgyfeiriadau mewn modd cymesur neu ni chânt eu huwchgyfeirio i'r broses amddiffyn plant mewn modd amserol.

Mae angen gwella'r broses o gofnodi'r cryfderau ac, yn benodol, y ffactorau amddiffynnol ym mywydau plant. Mae hyn yn bwysig gan mai sail cryfderau o amgylch teuluoedd sy'n darparu'r amddiffyniad mwyaf effeithiol yn y pen draw. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i bryderon gael eu dadansoddi'n gliriach ac yn well er mwyn sicrhau y gellir rhoi cynlluniau amddiffyn plant effeithiol ar waith. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys camau gweithredu a chanlyniadau clir, gan weithio gyda theuluoedd i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r risgiau.

Ceir enghreifftiau o achosion o gam-drin domestig ac anafiadau corfforol yn cael eu huwchgyfeirio a chynlluniau diogelu annigonol i reoli'r risg. Gwelsom achosion lle roedd honiadau wedi'u gwneud dro ar ôl tro a chyfleoedd i adolygu hanes ffeiliau diweddar wedi'u colli. Mae amseroldeb hefyd yn broblem ac mae achosion lle na chaiff plant eu gweld yn dilyn honiad. Mae angen i reolwyr gwasanaethau plant a'r heddlu roi sylw brys i ymatebion un asiantaeth gan wasanaethau plant, yn enwedig mewn perthynas â honiadau o anafiadau corfforol a cham-drin domestig, er mwyn sicrhau nad yw diogelwch plant yn cael ei gyfaddawdu.

Ni chaiff cofnodion bob amser eu gwneud mewn modd amserol, sy'n golygu bod gwybodaeth allweddol ar goll. Nid yw hyn yn golygu nad yw gwaith gyda theuluoedd yn digwydd, ond mae diffyg cofnodion yn golygu na ellir dangos bod dyletswyddau statudol allweddol yn cael eu cyflawni.

Ni chaiff ymarfer rheng flaen ei oruchwylio'n gyson gan reolwyr, ac er bod rhywfaint o gymorth goruchwylio eithriadol yn amlwg, ond hefyd mae bylchau mewn cymorth goruchwylio mewn perthynas â phenderfyniadau rheng flaen. Roedd ansicrwydd yn aml ynghylch trefniadau goruchwylio rheolwyr mewn rhai meysydd gwasanaeth, ac nid oedd yn glir beth oedd y rhesymeg dros benderfyniadau na ph'un a oeddent wedi'u goruchwylio. Mae angen i gofnodion tîm y Porth symud i ffwrdd oddi wrth gofnodi 'Dim camau pellach' tuag at naratif cliriach am y rhesymeg dros benderfyniadau. Mae enghreifftiau o ffeiliau'n cael eu cau heb ddadansoddiad digonol o'r risg a gyda chynlluniau diogelu priodol ar waith. Mae angen canolbwyntio ar wella her, cymorth y tîm rheoli a'r broses ar gyfer goruchwylio'r trefniadau hyn.

Rydym yn pryderu bod rhai o weithwyr y Porth yn gweithio ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn faes y dylai gwasanaethau plant ei adolygu er mwyn cael sicrwydd bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n briodol a bod penderfyniadau'n cael eu cefnogi gan reolwyr mewn modd cadarn. Rydym wedi cydnabod bod y maes gwasanaeth hwn wrthi'n cael ei adolygu a bod adnoddau wedi'u cysoni o'r newydd yn ddiweddar er mwyn cryfhau'r gweithlu.

## 2.2 Pobl

### Cryfderau

### Trefniadau partneriaeth

Mae arweinwyr a rheolwyr yn deall profiadau plant a theuluoedd y mae angen eu helpu a'u hamddiffyn a maint yr angen a'r risg yn eu maes. Yn gyffredinol, ar lefel weithredol, mae dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn amlwg. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fydd plant mewn ysgolion lle mae cymorth amlwg gan yr ysgol.

Ceir dull cadarnhaol o ddysgu a datblygu mewn perthynas ag amddiffyn plant ar draws asiantaethau. Ceir rhaglen o hyfforddiant amlasiantaeth wyneb yn wyneb a rhithwir sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau diogelu. Darperir yr hyfforddiant hwn ar draws ôl-troed Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn unol â blaenoriaethau a nodwyd gan y bwrdd. Fodd bynnag, nid yw'r heddlu bob amser yn manteisio ar yr hyfforddiant hwn.

Trefnir hyfforddiant ymchwilio ar y cyd drwy'r Bwrdd Diogelu. Mae'r hyfforddiant hwn yn agored i'r heddlu a phartneriaid gyda'r nod o wella arferion a threfniadau cydweithio.

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Caiff safbwyntiau'r plentyn eu ceisio gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac mae hyn yn amlwg yng nghofnodion ymwelwyr iechyd ac ymgyngoriadau pediatrig. Lle roedd gweithiwr iechyd proffesiynol wedi nodi y gallai presenoldeb perthynas mewn archwiliad meddygol amddiffyn plant fod wedi dylanwadu ar lais y plentyn, roedd hyn wedi'i nodi yn yr adroddiad amddiffyn plant a gyflwynwyd i'r gweithiwr cymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn cynnal amheuaeth iach wrth fynd i'r afael â phryderon amddiffyn plant.

Mae'r gweithwyr diogelu proffesiynol a gyflogir yn BIPBC yn rhagweithiol ac yn hawdd mynd atynt. Mae strwythur diogelu corfforaethol clir ar waith, sy'n cynnwys Oedolion, Plant a Phobl Ifanc, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r agenda Niwed ehangach. Mae'r gallu i ddefnyddio amrywiaeth o rolau arbenigol yn sicrhau bod gan Fyrddau Iechyd arweinwyr diogelu, gyda nifer o swyddogaethau arbenigol. Mae diogelu yn dal i fod ar y gofrestr risgiau corfforaethol, wrth i'r galw a'r cymhlethdod barhau i herio'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r tîm diogelu yn chwarae rhan lawn ym mhob maes gwaith amlasiantaeth, ar lefel strategol a gweithredol. Ar hyn o bryd mae uwch-reolwyr diogelu yn cyflawni rolau megis Is-gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru a Chadeirydd ac Is-gadeirydd Grwpiau Cyflawni Lleol. Cwblhaodd y Bwrdd Iechyd yr hunanasesiad cenedlaethol a adolygwyd gan gymheiriaid, sef y Matrics Aeddfedrwydd diogelu ar gyfer 2021/22, gan sgorio 25 allan o 25.

Mae sesiynau goruchwylio diogelu ar gael i bob aelod o'r staff sy'n defnyddio amrywiaeth o fodelau, ac mae cronfa ddata goruchwylio ar waith i gofnodi cydymffurfiaeth â threfniadau goruchwylio gorfodol. Ceir cyfathrebu da rhwng aelodau tîm diogelu'r bwrdd iechyd a staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant.

Rhennir adroddiadau Diogelu Plentyn sy'n wynebu Risg gweithwyr iechyd proffesiynol â'r tîm diogelu ac, felly, mae'r broses yn cynnwys elfen o sicrhau ansawdd.

Mae llesiant staff y bwrdd iechyd yn un o'r prif ystyriaethau a cheir enghreifftiau o wasanaethau a roddir ar waith gan y Tîm Diogelu sy'n hygyrch i'r staff er mwyn hybu eu llesiant, er enghraifft Rheoli'r Risg o Drawma. Mae hyn yn cynnwys Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol a all ddarparu cymorth i aelodau o staff sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.

Mae hyfforddiant amlasiantaeth ar gael yn hawdd ac yn cael ei hysbysebu'n dda, a cheir ymateb da iddo. Caiff gwersi a ddysgwyd o adolygiadau, fel adolygiadau o ymarfer plant a lladdiadau domestig, eu rhannu drwy ddigwyddiadau hyfforddi, sesiynau briffio 7 munud a bwletinau dysgu. Mae rhaglen o archwiliadau yn adlewyrchu pryderon ac yn pennu a yw gwersi wedi'u hymgorffori mewn ymarfer.

Cynhaliodd staff Adrannau Achosion Brys ymarfer cwmpasu gyda phlant yn ddiweddar er mwyn ystyried taith y plentyn drwy'r Adran Achosion Brys a sut y gellid ei gwella. Dangosodd adborth o'r ymarfer fod y staff yn teimlo'n fwy hyderus wrth asesu plant, a bod y broses yn rhoi llais cryfach i blant wrth lywio ymarfer yn y dyfodol yn yr Adran.

Gall plant mewn gofal gael eu hasesiadau iechyd mewn amrywiaeth o leoliadau, gan weithiwr iechyd proffesiynol y maent yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo ac ar adegau sy'n gyfleus iddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr asesiadau iechyd yn cofnodi dymuniadau a theimladau'r plentyn.

Mae BIPBC yn rhagweithiol o ran y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer cyfathrebu a darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y cyfwelwyd â nhw y caiff cleifion a'u teuluoedd gynnig cyfathrebu yn Gymraeg.

### Addysg

Mae'r awdurdod lleol yn deall bod cydberthnasau cefnogol cryf rhwng disgyblion a staff yn sail i ddatblygiad emosiynol da ymhlith disgyblion yn gyffredinol, ond mae'r cydberthnasau hyn yn allweddol i ddisgyblion agored i niwed. Mae'n gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i gefnogi llesiant staff.

Mae ysgolion yn cael lefelau uchel o gymorth pwrpasol gan swyddogion yr awdurdod lleol ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi, yn enwedig gwaith y swyddog arweiniol diogelu dynodedig, sy'n rhoi arweinyddiaeth gref a sicr. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y gwaith integredig rhwng gwasanaethau addysg a phlant.

Ceir cymorth ac arweiniad cynhwysfawr a pherthnasol i ysgolion. Mae hyn yn cynnwys polisïau clir ar ddiogelu. Mae'r awdurdod lleol yn bodloni gofynion statudol mewn perthynas â hyfforddi staff ar ddiogelu ac amddiffyn plant. Darperir hyfforddiant perthnasol i arweinwyr diogelu ysgolion ar amrywiaeth eang o themâu, a cheir cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod, trafod a rhannu arferion da.

Mae llais y plentyn yn amlwg yng ngwaith ysgolion gyda phlant, a defnyddir amrywiaeth o ddulliau effeithiol i gefnogi'r plentyn i leisio ei deimladau, er enghraifft drwy broffil un dudalen y Cynllun Addysg Personol.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru drefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer amddiffyn plant. Caiff bwrdd amddiffyn pobl agored i niwed misol ei gadeirio gan y Ditectif Uwch-arolygydd a chaiff bwrdd bregusrwydd yr heddlu, a gynhelir bob deufis, ei gadeirio gan y Ditectif Brif Uwch-arolygydd. Mae'r olaf o'r rhain yn cynnwys arweinwyr strategol ym maes amddiffyn pobl agored i niwed, plismona lleol, cymorth gweithredol a gwasanaethau corfforaethol. Cyflwynir gwybodaeth gryno o'r byrddau hyn i fwrdd rheoli strategol yr heddlu (ar lefel y prif swyddogion) a'r bwrdd gweithredol strategol (sy'n cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu).

Mae rheolwyr yn defnyddio gwersi a ddysgwyd o achosion lleol a chenedlaethol i wella'r ffordd y mae'r staff yn ymateb i blant agored i niwed. Maent yn datblygu sbardun o'r enw LLAIS er mwyn helpu staff rheng flaen i arsylwi ar blant, ymgysylltu â nhw a chofnodi eu llais.

Comisiynwyd y Rhaglen Unigolion Agored i Niwed, Gwybodaeth ac Ymarfer (VKPP) er mwyn darparu adolygiad gan gymheiriaid i'r heddlu o'i ymatebion amddiffyn plant. Mae hefyd yn ofynnol i dditectif arolygwyr archwilio achosion eu timau mewn adolygiadau thematig.

Mae'r heddlu yn ymateb i wybodaeth am lefelau'r galw a'r angen i gynnal penderfyniadau o ansawdd uchel mewn perthynas ag amddiffyn plant. Mae wedi cynyddu nifer y ditectif ringylliaid yn Uned Atgyfeirio Ganolog yr heddlu. Mae hyn yn galluogi goruchwylwyr amddiffyn plant arbenigol i gynnal cyfarfodydd strategaeth amserol gyda phartneriaid yr heddlu.

**Gwasanaethau Plant**

Mae gan Wasanaethau Plant Sir Ddinbych grŵp rheoli sefydlog a chefnogol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig dros y misoedd diwethaf er mwyn rhoi cymorth cyson i'r staff, o ystyried argyfwng cenedlaethol parhaus y gweithlu. Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd gan Wasanaethau Plant Sir Ddinbych gyfradd swyddi gwag o 26 y cant ar draws y timau, ffigur a fyddai wedi bod yn waeth heblaw am gymorth staff asiantaeth.

Mae cymorth da gan reolwyr a chymheiriaid ar gael i staff ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae llesiant staff yn flaenoriaeth i reolwyr, ac yn eitem reolaidd ar yr agenda mewn cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol. Mae'r oruchwyliaeth gan reolwyr yn amrywio, felly hefyd y cyfleoedd i ymarferwyr fyfyrio ar ymarfer, ond dywedodd yr ymarferwyr fod y rheolwyr yn wybodus, yn ymatebol ac yn hawdd mynd atynt. Roedd hyn yn amlwg ar draws ein gweithgarwch arolygu ehangach.

Dywedodd y bobl ifanc a ymatebodd i arolwg AGC fod y cyfathrebu rhyngddynt â gweithwyr cymdeithasol yn dda, a dywedasant fod gweithwyr cymdeithasol yn gwrando arnynt, ac yn esbonio pethau iddynt. Mae rhai teuluoedd yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau, ac mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n galed i

annog rhieni i gymryd rhan, hyd yn oed pan fyddant yn amharod i wneud hynny. Ceir enghreifftiau o gymorth proffesiynol yn cael ei addasu er mwyn helpu i gyfathrebu â rhieni, ac enghreifftiau o rieni'n cael eu cefnogi drwy eiriolaeth ffurfiol. Mae hyn yn bwysig, gan ei bod yn golygu bod gweithwyr proffesiynol yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall beth yw'r risgiau a'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

O ran y sampl o gofnodion AGC a welwyd mewn perthynas â chwynion, pan fydd pobl yn gwneud cwyn neu'n mynegi pryder am wasanaethau plant, ymatebir mewn modd amserol gan ddilyn y llinellau ymholi priodol. Mae hyn yn gadarnhaol gan ei bod yn dangos bod adborth pobl yn cael ei ystyried yn bwysig, a bod gwasanaethau plant yn mynd ati i ddysgu o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud.

Mae gan Wasanaethau Plant Sir Ddinbych hyrwyddwr y Gymraeg y gall staff fynd ato os bydd unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae tîm y Porth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg i alwyr drwy neges dewis iaith dros y ffôn. Gan nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg rhugl yn y tîm ar hyn o bryd, defnyddir siaradwr Cymraeg o restr o siaradwyr Cymraeg y gwasanaeth ehangach os bydd angen.  Mae Ap Mind of my Own (Momo) yn ddwyieithog, gan alluogi plant sy'n siarad Cymraeg i rannu eu barn yn eu dewis iaith.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Trefniadau partneriaeth**

Mae trosiant uchel a chyfraddau swyddi gwag uwch wedi bod yn her gynyddol i lawer o asiantaethau. Gall hyn gael effeithiau andwyol ar bobl sy'n cael gofal a chymorth o ganlyniad i anghysondeb a bylchau mewn gwasanaeth. Ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn benodol, cydnabyddir bod hyn yn her genedlaethol, a bod angen i ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol barhau. Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws asiantaethau yn Sir Ddinbych.

Mae llais y plentyn a gwybodaeth am brofiadau bywyd plant yn anghyson ar draws rhai asiantaethau.  Nid yw cofnodion asiantaethau yn helpu'r ffocws ar y plentyn, ond cydnabyddir bod hyn yn fwy amlwg mewn lleoliadau addysgol. Yng Ngwasanaethau Plant Sir Ddinbych, gwneir defnydd cadarnhaol o ap Momo. Rydym yn ymwybodol bod cynlluniau i ehangu'r defnydd o'r ap hwn, a fydd yn gwella cyfleoedd i blant leisio eu barn.

Rhaid i wasanaethau eirioli gael eu hatgyfnerthu er mwyn gwella cyfleoedd i gynrychioli safbwyntiau plant. Rhaid sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer eiriolaeth i blant sy'n destun cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn cael ei hyrwyddo ymhellach, gan weithio gyda'r darparwr a gomisiynwyd i gyflawni hyn. Pan fydd llais yn amlwg, mae hyn yn arwain at wella'r help a'r cymorth a roddir i deuluoedd.

Mae ansawdd cofnodion yn amrywiol ac yn anghyson. I rai asiantaethau, mae'r mater hwn yn ymwneud â chapasiti, ac mae'n golygu na all asiantaethau fod yn sicr bod rolau a chyfrifoldebau diogelu yn cael eu cyflawni.  Nid yw'r systemau TG ar gyfer cofnodion gwasanaethau cymdeithasol o reidrwydd yn helpu ansawdd y broses gofnodi. Ar draws asiantaethau, ceir enghreifftiau o gofnodion annigonol ar gyfer ethnigrwydd ac iaith. Yn gyffredinol, mae'r broses o gadw cofnodion ym mhob rhan

o'r bwrdd iechyd yn dda, er nad oedd rhai cofnodion wedi'u llofnodi na'u dyddio ac yn aml, nid oedd amser  ymweliadau neu alwadau ffôn wedi'u cofnodi.

Mae llawer o staff BIPBC yn defnyddio cofnodion papur, ac mae cofnodion gwahanol ar gyfer gweithwyr proffesiynol gwahanol. Felly, efallai nad yw staff bob amser yn gwybod a yw plant neu deuluoedd yn hysbys i wasanaethau gofal iechyd eraill. Codwyd y risgiau sy'n gysylltiedig â chofnodion papur mewn perthynas â diogelu gan nifer o ffynonellau.  Dywedwyd wrthym fod mesurau ar waith i bennu sut y gellir cyflwyno system electronig, ond gan nad yw hyn yn debygol o fod yn ateb cyflym, erys y risg. Mewn anghysondeb yng nghofnodion Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau, er enghraifft pwy sy'n bresennol gyda phlentyn, statws plant sy'n derbyn gofal plentyn, ac a roddwyd gwybod i'r gweithiwr cymdeithasol. Nid oes cofnod bob amser i gadarnhau bod adroddiad iechyd cynhadledd amddiffyn plant wedi'i rannu â rhiant/gofalwr. Mae angen gwella dogfennaeth a chyfathrebu ar draws timau.

Mae meysydd i'w nodi o dan drefniadau rhanbarthol. Mae Ditectif Uwch-arolygydd Amddiffyn Pobl Agored i Niwed yr heddlu yn cyfarfod â phartneriaid yng nghyfarfod rhanbarthol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, ond byddai presenoldeb ar lefel y prif swyddogion yn briodol i adlewyrchu'r pwysigrwydd strategol.

Er nad yw'n ofyniad statudol, nid oes rôl craffwr annibynnol ar gyfer y Bwrdd hwn. Nid yw'r bartneriaeth wedi comisiynu unrhyw waith craffu annibynnol ar effeithiolrwydd ei threfniadau i ddiogelu plant.

Cynhelir cyfarfod penaethiaid gwasanaethau misol rhwng yr Uwch-arolygydd Amddiffyn Pobl Agored i Niwed a phenaethiaid gwasanaethau plant ar gyfer y chwe awdurdod lleol yn ardal yr heddlu. Mae'r cyfarfod hwn yn galluogi uwch-reolwyr i drafod gweithgarwch gweithredol er mwyn sicrhau ei fod yn effeithlon ac yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r heddlu wedi mynegi pryderon am ansawdd a chysondeb cyfweliadau dychwelyd i'r cartref gwasanaethau plant ar gyfer plant sydd ar goll. Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatrys, ac er nad y maes hwn oedd ffocws yr arolygiad hwn, mae angen rhoi sylw brys iddo o ystyried y pryderon cysylltiedig posibl o ran diogelwch.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae recriwtio a chadw staff yn bryder mewn rhai rhannau o'r bwrdd iechyd. Er enghraifft, gall prinder nyrsys ysgol, a'u tasgau croes, effeithio ar eu gallu i weithio'n ddwysach gyda phlant oed ysgol. Mae hyn yn effeithio ar y cyfle i glywed llais y plentyn ac i ddeall ei brofiadau bywyd.

Cydnabyddir nad yw hawliau plant wedi'u hymgorffori'n llawn ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Ceir enghreifftiau o'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, a'r ffordd y mae'n cael ei herio ar lefel bwrdd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Siarter Plant i ategu hyn.

Mae gan y Tîm Diogelu drefniadau llywodraethu cadarn, sy'n amlwg. Fodd bynnag, mae'r gwaith a wnaed yn ddiweddar i ailstrwythuro'r sefydliad ac i roi model gweithredu newydd ar waith wedi effeithio ar gyfarfodydd Fforwm Diogelu'r Gymuned

Iechyd Integredig Ganolog, lle mae cynrychiolwyr o ddisgyblaethau gofal iechyd yn cyfarfod i sicrhau bod arferion diogelu yn cyrraedd safonau'r bwrdd iechyd a bod risgiau'n cael eu nodi. Mae'n amlwg bod y sefyllfa yn gwella erbyn hyn, a chafodd risgiau yn ystod y cyfnod hwn o newid eu nodi drwy Uwch-arweinwyr y Tîm Diogelu, a'u huwchgyfeirio'n briodol.

Mae'n ofynnol i bob cyflogai newydd gwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn unol â'i rôl. Yn ogystal â hynny, lle bydd gwiriad y DBS wedi'i gwblhau ers mwy na thair blynedd, bydd staff mewnol sy'n symud i rôl uwch neu rôl newydd y mae gwiriad gan y DBS yn ofynnol ar ei chyfer, yn cwblhau gwiriad arall. Lle y caiff honiadau neu bryderon ynghylch diogelu eu codi am aelod o'r staff mewn rôl ag ymddiriedaeth, gofynnir am wiriad pellach gan y DBS.

Mae diffyg cydymffurfiaeth â hyfforddiant mewn rhai meysydd. Mae BIPBC yn cydnabod hyn, ac mae'r tîm diogelu yn mynd ati i wella cydymffurfiaeth drwy gynnig sesiynau hyfforddi a goruchwylio pwrpasol i grwpiau o staff nad oes llawer o hyfforddiant wedi'i gofnodi ar eu cyfer. Caiff rhaglenni hyfforddi amlasiantaeth a sesiynau hyfforddi mewnol eu hyrwyddo drwy fwletinau diogelu electronig rheolaidd a gwybodaeth ar fewnrwyd y bwrdd iechyd. Ar hyn o bryd, nid oes ffordd o fesur cydymffurfiaeth â Hyfforddiant Lefel 3 ar Ddiogelu Plant y gywir am fod data ar gyfer hyfforddiant Lefel 2 a Lefel 3 yn cael eu casglu ar y cyd drwy'r cofnod staff electronig. Dywedwyd wrthym fod prosesau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn. Mae bydwragedd yn cwblhau hyfforddiant Lefel 3 fel rhan o ddiwrnod hyfforddi gorfodol blynyddol; felly caiff hyn ei gofnodi'n gywir yn y gwasanaethau mamolaeth.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Mae heriau ar draws y gweithlu amlasiantaeth gyda staff newydd a staff dros dro. Yn Heddlu Gogledd Cymru, nid yw'r newidiadau mynych i reolwyr mewn rolau amddiffyn plant allweddol yn rhoi'r cyfle i'r heddlu a'i bartneriaid atgyfnerthu cydberthnasau na'r wybodaeth broffesiynol berthnasol.

Mae anghysondeb o ran y ffordd y mae swyddogion yn cofnodi llais y plentyn. Mae'r heddlu'n gwybod bod angen iddo wella ac mae wedi ychwanegu adran at ei ffurflen atgyfeirio at y diben hwn, ond yn rhy aml mae'r adran hon yn cael ei gadael yn wag. Nid yw swyddogion rheng flaen sy'n ymateb i ddigwyddiadau bob amser yn siarad â'r plant sy'n bresennol. Nid ydynt chwaith bob amser yn cofnodi gwybodaeth am ymarweddiad, amgylchiadau na dymuniadau'r plentyn. Nid yw atgyfeiriadau am gymorth i blant bob amser yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i nodi pa wasanaethau sydd eu hangen.

Nid oes unrhyw hyfforddiant ar natur agored i niwed yn cael ei gynnig ar draws yr heddlu cyfan ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod dull anghyson o ymdrin â natur agored i niwed plant. Ni fydd llawer o staff yr heddlu yn manteisio ar hyfforddiant amlasiantaeth ar amddiffyn plant. Mae newydd-ddyfodiaid i'r heddlu yn mynychu hyfforddiant ar natur agored i niwed, gan gynnwys cofnodi llais y plentyn a sut i wneud atgyfeiriadau. Mae staff Amddiffyn Pobl Agored i Niwed yn cael hyfforddiant arbenigol ar ymchwilio i achosion amddiffyn plant. Mae'r heddlu hefyd yn hyfforddi gweithwyr cymdeithasol ochr yn ochr â swyddogion ar gynnal cyfweliadau tystiolaethol fideo â phlant.

Ceir gwybodaeth am adnabod unigolion agored i niwed ac ymateb iddynt ar fewnrwyd yr heddlu, ond nid yw'r heddlu yn monitro nifer y staff sy'n defnyddio'r adnodd hwn. Mae wedi ymateb i oedi mewn perthynas â hyfforddiant drwy gyflwyno ei gwrs ei hun, wedi'i gymeradwyo gan y Coleg Plismona, i hyfforddi swyddogion yn lleol.

**Gwasanaethau Plant**

Mae cryn ansefydlogrwydd yn y gweithlu gwasanaethau plant, a gwyddom fod mynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol. Ceir enghreifftiau lle mae gan reolwyr tîm lai o gapasiti am fod ganddynt eu llwythi achosion eu hunain. Mae gweithlu ansefydlog yn atal plant rhag meithrin cydberthnasau sefydlog, ymddiriedus ac arwyddocaol â gweithiwr cyson. Dywedodd un gofalwr fod ymadawiad gweithiwr cymdeithasol yn 'drychineb' oherwydd yr effaith ar allu'r plentyn i feithrin cydberthynas â'i weithiwr.

Gan gydnabod bod sefyllfa'r gweithlu yn risg uchel gorfforaethol, mae uwch-reolwyr gwasanaethau plant yn pryderu am y tebygolrwydd cynyddol o risg o ganlyniad i adnoddau annigonol. Mae camau ar waith i liniaru argyfwng y gweithlu ond mae angen parhau i symud ymlaen yn gyflym drwy gymorth parhaus aelodau a'r uwch-dîm arwain, gan gynnal ffocws parhaus ar ddigonolrwydd y gweithlu yn y dyfodol.

O ganlyniad i swyddi gwag a'r cynnydd mewn galw, mae'r llwyth gwaith yn uchel, ac yn rhy uchel mewn rhai timau i alluogi ymarfer o ansawdd uchel a sicrhau bod gweithwyr yn gallu myfyrio ar eu cyfrifoldebau amddiffyn plant. Roedd hyn i'w weld lle roedd bylchau amlwg mewn rhai cofnodion, ond yn bwysicaf oll, nid oedd ymarferwyr bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i weld plant a meithrin cydberthnasau â nhw. Ni allwn fod yn hyderus y manteisir yn gyson ar gyfleoedd i nodi risgiau a gwrando ar brofiadau plant.

Fel y nodwyd yn flaenorol, gall ymarferwyr droi at reolwyr gwasanaethau cymdeithasol rheng flaen yn ogystal uwch-reolwyr i gael arweiniad a chyngor. Fodd bynnag, roedd cofnodion rheoli achosion ffurfiol yn anghyson mewn rhai meysydd gwasanaeth. Mae hyn yn golygu nad oes digon o gyfleoedd i fyfyrio a chynnig heriau iach er mwyn cynnal ffocws gofal a chymorth plant a sicrhau bod diogelwch a llesiant yn cael eu hyrwyddo'n barhaus.

## 2.3 Partneriaethau ac Integreiddio

### Cryfderau

**Trefniadau Partneriaeth**

Ceir presenoldeb da gan bartneriaid yn y gynhadledd asesu risg amlasiantaeth (MARAC). Mae agenda benodol sy'n canolbwyntio ar rieni â phlant yn golygu, os bydd plant yn wynebu risg, bod ffocws ar y plentyn. Caiff y gynhadledd ei chadeirio'n dda gan dditectif arolygydd a chyflwynir adroddiadau ysgrifenedig gan bob grŵp perthnasol o staff. Mae cyfarfodydd wythnosol yn helpu'r bartneriaeth i ymateb yn brydlon i risg o gam-drin domestig.

Ceir rhai cysylltiadau sefydledig ac sy'n datblygu ar draws gwasanaethau, ynghyd â chydweithio amlwg. Bydd Bwthyn y Ddôl, sef menter ar y cyd rhwng Cyngor Sir Conwy a Sir Ddinbych a BIPBC yn darparu gwasanaeth asesu amlddisgyblaethol i blant ag anghenion cymhleth pan fydd yn agor. Yn y tîm therapiwtig, ceir cymorth cadarnhaol gan staff CAMHS ar ffurf cymorth clinigol i'r staff gofal cymdeithasol hynny sy'n hwyluso therapi ymddygiad dialectig ar gyfer grwpiau cymorth rhieni/gofalwyr. Tîm amlasiantaeth yw'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd Lleol, sy'n cynnwys staff o Gyngor Sir Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a BIPBC. Mae'r Tîm hwn yn helpu teuluoedd yn y cartref drwy roi cymorth i rianta mewn amgylchiadau anodd.

Mae gan ysgolion lawer o drefniadau partneriaeth cadarnhaol ar waith. Er enghraifft, mae swyddogion cyswllt ysgolion yr heddlu yn rhoi cymorth buddiol i ysgolion drwy Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Maent yn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr mewn perthynas â lles a llesiant. Cefnogir y rhaglen gan wefan SchoolBeat.Cymru, sy'n cynnig cymorth i ddisgyblion, rhieni ac athrawon.
Mae swyddogion hefyd yn cefnogi ysgolion a disgyblion, gan ymchwilio i droseddau yn yr ysgol, ac mae ganddynt gydberthnasau gwych ag Arweinwyr Diogelu Dynodedig a phenaethiaid.

Mae amrywiaeth eang o ymyriadau therapiwtig ar gael i ddisgyblion cynradd ac uwchradd drwy'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i helpu ysgolion yn Sir Ddinbych i roi Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol Llywodraeth Cymru ar waith, wedi'i arwain yn bennaf gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg. Mae hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso data ar iechyd a llesiant emosiynol er mwyn nodi tueddiadau ac ymyriadau i gefnogi'r broses o roi'r fframwaith ar waith. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg hefyd yn cynnig hyfforddiant ar Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol i ysgolion, sydd wedi dod yn fwy perthnasol yn dilyn pandemig COVID-19 a'r tarfu ar brofiadau addysgol a achoswyd ganddo.

Crëwyd y llwybr hunan-niwed ar y cyd gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a CAMHS Sir Ddinbych er mwyn rheoli achosion o hunan-niwed a theimladau hunanladdol mewn ysgolion yn ddiogel. O ganlyniad, mae gan CAMHS staff dynodedig i ymateb i staff mewn lleoliadau addysgol. Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Tachwedd 2022, cafodd 240 o ddisgyblion gymorth ar y cyd drwy'r Llwybr Hunan-niwed gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a CAMHS. O blith y disgyblion hyn, roedd 10 yn blant oed cynradd.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae staff CAMHS yn gweithio mewn partneriaeth agos â chydweithwyr amlasiantaeth i ymgysylltu â phlant a'u diogelu. Mewn un enghraifft, roedd cynrychiolydd o ysgol wedi llwyddo i gael cyngor dros y ffôn mewn perthynas â phlentyn a oedd yn hunan-niweidio, ac o ganlyniad i hynny, wedi gallu llunio cynllun rheoli risg. Mewn enghraifft arall, roedd staff CAMHS wedi ymdrechu'n barhaus i ymgysylltu â phlentyn, gan gynnwys cynnig ei weld yn yr ysgol, oherwydd teimlwyd y gallai deimlo'n fwy cyfforddus yno.

Roedd cydweithio amlasiantaeth yn amlwg ar draws disgyblaethau iechyd. Er enghraifft, mae asiantaethau yn cydweithio'n dda i reoli'r her a wynebir pan fydd plant â phroblemau iechyd meddwl difrifol yn cael eu derbyn i ward pediatrig fel man diogel, nes y gellir dod o hyd i gyfleuster gofal addas.

Mae trefniadau cadarnhaol ar waith yn BIPBC ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ymwneud ag amddiffyn plant, er enghraifft yn ystod y cyfnod cyn geni. Mae'r cyfathrebu rhwng staff y bwrdd iechyd a meddygon teulu mewn perthynas â diogelu yn gadarn ar y cyfan.

**Addysg**

Mae arweinwyr addysg yn meithrin cydberthynas gynhyrchiol a chydweithredol â gwasanaethau plant ar bob lefel. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer cydweithio ar lefel strategol a gweithredol. Dywed staff ysgolion a staff yr awdurdod lleol fod uwch-arweinwyr mewn gwasanaethau addysg yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt.

Mae'r Panel Cymedroli Cynhwysiant amlasiantaeth yn cyfarfod i drafod yr ymyriadau neu'r darpariaethau ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt neu leoliad mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn dilyn cais gan yr ysgol. Gall y panel hefyd nodi cymorth Llwybrau addas, yn ychwanegol at strategaethau eraill ar gyfer dysgwyr agored i niwed a'r rhai sy'n anodd eu lleoli.

Mae Gwasanaethau Addysg ac ysgolion yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â thimau o fewn gwasanaethau plant i gynllunio darpariaeth ar gyfer plant agored i niwed yn Sir Ddinbych, ei rhoi ar waith a'i hadolygu. Caiff hyn ei gefnogi drwy gyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol a Chynllunio Amlasiantaeth rheolaidd, wedi'u harwain gan arweinwyr bugeiliol. Mae cyfarfodydd Cynllunio Amlasiantaeth wedi'u sefydlu'n dda mewn ysgolion uwchradd, ac maent yn dechrau cael eu cyflwyno mewn ysgolion cynradd yn ôl yr angen. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i nodi disgyblion yn gynnar a rhoi ymyriadau ar waith ar eu cyfer.

Mae'r cymorth ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal yn gryf. Ceir cydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau plant ac ysgolion. Mae'r cymorth ar gyfer cynnal lleoliadau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n symud rhwng lleoliadau gofal hefyd yn gryfder. Un peth sy'n werth ei nodi yw nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau ac nad ydynt yn NEET.

**Gwasanaethau Plant**

Yn gyffredinol, mae partneriaid yn defnyddio'r wybodaeth, y cyngor a'r gwasanaeth cymorth a ddarperir gan Wasanaeth Porth gwasanaethau plant yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu partneriaid i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am addasrwydd atgyfeiriad ac i gadarnhau a yw pryderon yn bodloni'r trothwy ar gyfer atgyfeiriad. Yn yr holiadur a anfonwyd at athrawon cyn yr arolygiad, ym mron pob un o'r meysydd, roedd penaethiaid ysgolion yn fodlon ar y gwasanaeth a'r cymorth roeddent yn eu cael gan wasanaethau plant, ac ar y cydweithio â nhw. Ceir hefyd gysylltiadau da rhwng penaethiaid a'r pennaeth addysg drwy gyfarfodydd wythnosol, y mae pennaeth gwasanaethau plant hefyd yn ei fynychu.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Trefniadau Partneriaeth**

Nid oes unrhyw ddogfen trothwy amlasiantaeth ar waith. Mae gwasanaethau plant wedi datblygu dogfen, ond nid yw holl staff gwasanaethau plant yn ymwybodol ohoni ac nid yw'n cael ei defnyddio gan asiantaethau partner. Dylai'r bartneriaeth sicrhau y caiff dogfen o'r fath ei datblygu a'i rhoi ar waith ar y cyd. Dylai'r ddogfen hon roi canllaw i bob gweithiwr proffesiynol ar yr amgylchiadau lle y dylid atgyfeirio plant a theuluoedd am gymorth ar draws lefelau angen.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae anghysondebau o ran y ffordd y mae'r heddlu yn cael gwybodaeth o gyfweliadau dychwelyd i'r cartref yr awdurdod lleol ar gyfer plant sydd ar goll. Weithiau, ni chaiff y cyfweliadau hyn eu cynnal o gwbl ac ar adegau eraill, ceir oedi hir cyn i'r heddlu gael unrhyw wybodaeth. Ar lefel weithredol, mae hyn yn golygu nad yw swyddogion bob amser yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'w helpu i ddod o hyd i blant yn gyflym.

**Gwasanaethau Plant**

Nid yw gwasanaethau plant bob amser yn rhannu cofnodion cyfarfodydd amddiffyn plant, fel cynadleddau amddiffyn plant, na chofnodion a chamau gweithredu grwpiau craidd â gweithwyr proffesiynol allweddol. Mae hyn yn golygu efallai nad yw asiantaethau yn deall y dull amlasiantaeth o ddiogelu a chefnogi plant a theuluoedd.

## 2.4 <u>Atal</u>

**Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae menter newydd i gynnig lleoliad wythnos o hyd yn Nhîm Diogelu'r Bwrdd Iechyd i nyrsys dan hyfforddiant yn golygu bod ganddynt ddealltwriaeth ymarferol well o gyfrifoldebau diogelu staff a gwaith partneriaeth i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg pan fyddant yn graddio.

Mae cyflwyno Llysgenhadon Diogelu ar draws y Bwrdd Iechyd yn ffynhonnell ychwanegol o gyngor a chymorth i helpu'r staff i nodi pryderon ynghylch diogelu.

Mae prosesau goruchwylio diogelu wedi'u sefydlu'n dda, gan roi cynllun clir i'r staff mewn perthynas â rheoli achosion lle ceir pryderon ynghylch diogelu. Mae adolygiadau yn mynd rhagddynt i ehangu'r grwpiau o staff y mae angen iddynt ymgymryd â phrosesau goruchwylio gorfodol.

Mae'r Tîm Diogelu wedi cyflwyno Gwasanaeth Rheoli'r Risg o Drawma ar gyfer staff BIPBC sydd wedi wynebu trawma wrth gyflawni eu gwaith, a'r tîm hefyd sy'n rheoli'r gwasanaeth hwn. Ymhlith yr enghreifftiau mae staff sydd wedi bod yn rhan o Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDIC), staff sydd wedi ymwneud ag achosion o fabanod newydd anedig yn cael eu cymryd o ofal eu mamau, a staff sydd wedi bod yn rhan o Adolygiadau Ymarfer Plant.

Drwy gael copïau o adroddiadau Plentyn sy'n wynebu Risg, gall y Tîm Diogelu i driongli data sefydliadol, tueddiadau a phroses sicrhau ansawdd.

**Addysg**

Ar y cyfan, mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg yn Sir Ddinbych strategaethau ataliol ac ymatebol cryf. Mae'n gadarnhaol nodi na wnaed unrhyw argymhellion yn ymwneud â diogelu mewn arolygiadau cynradd diweddar. Mae polisïau, prosesau a ffurflenni priodol ar waith yn yr awdurdod lleol i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n wynebu risg, disgyblion sy'n eithriadol o agored i niwed a'r rhai sy'n ymddwyn yn dreisgar ac yn ymosodol.

Mae gwasanaethu addysg yn rhoi pwyslais cryf ar fesurau ataliol ac ar ymgysylltu â phlant y tu hwnt i'r diwrnod ysgol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer llesiant. Er enghraifft, mae un ysgol arbennig yn cynnal clwb Sadwrn er mwyn ymgysylltu â dysgwyr agored i niwed a chefnogi eu gofalwyr. Cynhelir clwb gwyliau i blant ag anghenion cymhleth hefyd. Mae gwasanaeth ceidwaid chwarae yr awdurdod lleol yn defnyddio adeiladau ysgolion ar draws yr awdurdod, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i gynnig cyfleoedd chwarae i blant y tu allan i oriau ysgol. Ceir enghreifftiau hefyd o wasanaethau ar y cyd, wedi'u harwain gan wasanaethau plant.

Ar y cyfan, mae cynlluniau ystyrlon ar waith mewn ysgolion ar gyfer cyflwyno maes iechyd a lles y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae llawer o ysgolion yn rhoi cryn bwyslais ar lesiant a lles y plentyn drwy brofiadau rhagweithiol a chyfoethog, fel cynnal 'Dydd Mercher Llesiant' mewn ysgolion cynradd lle mae disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau ar agweddau ar y 'Pum Ffordd at Les'. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am gydberthnasau diogel ac iach a nifer bach iawn sy'n canolbwyntio ar effaith pornograffi ac agweddau negyddol at y gymuned LHDTC+.

Mae canlyniadau arolygiadau ar gyfer llesiant a gofal, cymorth ac arweiniad mewn ysgolion, colegau addysg bellach a meithrinfeydd nas cynhelir yn Sir Ddinbych yn gryf iawn ers mis Mai 2021. Mae hyn yn cynnwys meithrin diwylliant o ddiogelu. Ar y cyfan, mae ysgolion yn monitro presenoldeb yn dda iawn, a gyda chymorth y Gwasanaeth Lles Addysg, maent yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i bryderon ynghylch presenoldeb, yn enwedig ymhlith grwpiau o ddisgyblion agored i niwed.

**Gwasanaethau Plant**

Mae llawer o'r atgyfeiriadau a dderbynnir gan wasanaethau plant, y mae llawer ohonynt yn ymwneud ag esgeulustod, yn cael eu hadolygu'n briodol a'u neilltuo ar gyfer asesiad cymesur i bennu 'beth sy'n bwysig'. Mae'r asesiadau hyn yn adolygu priodolrwydd gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar a ddefnyddir gan deuluoedd. Ar y cyfan, mae'r ymyriadau hyn yn helpu i atal pethau rhag gwaethygu, ac yn sicrhau canlyniadau da i'r plant a'r teuluoedd dan sylw.

Nid oes gan wasanaethau plant restrau aros ar draws timau, ac er gwaethaf y cynnydd mewn galw a chymhlethdod, mae'r llwybrau rhwng gwasanaethau mewn perthynas â chymorth ac ymyriadau cynnar i deuluoedd yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth, ac mae teuluoedd yn cael cymorth mewn modd amserol.

Ceir enghreifftiau o ymatebion prydlon i anghenion sy'n dod i'r amlwg a defnydd cadarnhaol o wasanaethau fel Cefnogi Pobl a'r Tîm o Amgylch y Teulu, gan roi cymorth priodol a chymesur i ddiwallu anghenion teuluoedd.

Mae cyfarfodydd trosglwyddo rheolaidd yn cynnwys gwasanaethau plant ac ymyrryd yn gynnar. Mae hyn yn cynnig cyfle i oruchwylio ar y cyd a chael trafodaeth broffesiynol am amgylchiadau plant a pha wasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda theuluoedd.

Ceir ymgysylltu cadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol a phartneriaid yn y trydydd sector. Mae hyn wedi helpu i gomisiynu gwasanaethau ac mae llais plant yn amlwg yn y broses hon, er enghraifft mewn perthynas â gwasanaethau i'r bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal.

Mae gan yr awdurdod lleol niferoedd cymharol sefydlog o blant sy'n derbyn gofal. Mae gan uwch-reolwyr a swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil plant sy'n derbyn gofal, a gwybodaeth dda amdano. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i'r agenda ataliol, ac i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae diffyg cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu mewn rhai rhannau o'r Bwrdd Iechyd.  Er bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, fel gohebiaeth reolaidd yn nodi dyddiadau hyfforddiant ac argaeledd sesiynau hyfforddi ychwanegol, mae diffyg cydymffurfiaeth o hyd ymhlith staff adrannau achosion brys yn arbennig. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Cylch gwaith ymgyrch Encompass yw rhoi gwybod i ysgolion am achosion o gam-drin domestig sydd wedi digwydd y noson flaenorol, a ddylai alluogi cynrychiolwyr ysgolion i ymgysylltu â'r teulu a chefnogi'r plentyn. Fodd bynnag, mae oedi yn y broses hysbysu drwy'r heddlu, a all arafu'r broses o fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelu a llesiant.

Mae proses y cytunwyd arni i alluogi swyddogion rheng flaen gyflwyno atgyfeiriadau am gymorth cynnar yn uniongyrchol i'r awdurdod lleol, ond nid oes unrhyw le i swyddogion gofnodi llais y plentyn yn yr atgyfeiriadau hyn. Nid oes chwaith unrhyw ofyniad i oruchwylwyr yr heddlu wirio cynnwys atgyfeiriadau am gymorth cynnar cyn iddynt gael eu cyflwyno. Mae hyn yn golygu nad yw arbenigwyr yr heddlu yn gwybod digon am yr atgyfeiriadau hyn ac nad ydynt yn adolygu ansawdd y wybodaeth na phriodoldeb yr atgyfeiriadau hyn.

**Gwasanaethau Plant**

Mewn rhai amgylchiadau, mae diffyg ffocws ar anghenion gofalwyr mewn sefyllfaoedd gofalu anodd a chymorth ar eu cyfer. Dylai fod mwy o ffocws ar gefnogi aelodau'r teulu a gofalwyr maeth gan fod rhai enghreifftiau yn dangos oedi neu

ddiffyg cymorth a chyfathrebu â gofalwyr. Gall hyn gael effaith andwyol ar sefydlogrwydd i blant.

## 3 Y Camau Nesaf

Ar ran y bartneriaeth, dylai'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o gamau gweithredu arfaethedig yn ymateb i'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai hwn fod yn ymateb amlasiantaeth yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru. Dylai'r ymateb nodi'r camau gweithredu ar gyfer y bartneriaeth a, lle y bo'n briodol, asiantaethau unigol.

Dylai pennaeth gwasanaethau plant anfon y datganiad ysgrifenedig hwn i AGC.AwdurdodLleol@llyw.cymru erbyn 29 Mehefin 2023. Bydd y datganiad hwn yn llywio llinellau ymholi yn ystod unrhyw weithgarwch yn ymwneud ag un asiantaeth neu asiantaethau ar y cyd gan yr arolygiaethau yn y dyfodol.

## 4 Methodoleg

**Gwaith maes**

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy edrych ar sampl o gofnodion asiantaethau ac olrhain trefniadau gofal a chymorth plant. Gwnaethom edrych ar sampl o ddeg ffeil achos ac olrhain chwech ohonynt.

Mae'r broses o olrhain cofnod plentyn yn cynnwys sgwrsio â'r plentyn lle y bo'n briodol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws gyda staff a chanolbwyntiodd dau grŵp o weithwyr proffesiynol ar y trefniadau gweithio a'r canlyniadau ar gyfer dwy ffeil a gafodd eu holrhain.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion ar draws asiantaethau gwahanol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth ategol a anfonwyd at yr arolygiaethau at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom anfon arolygon at staff gwasanaethau plant, gofal iechyd ac addysg, sefydliadau yn y trydydd sector a phlant ac aelodau o'u teulu.

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r arolygiaethau ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.